Teitl y Swydd: Swyddog Ymgysylltu

Math o gontract: Swydd barhaol, llawn amser (35 awr yr wythnos)

Graddfa: Gradd 3 £21,436 (pwynt 1)- £23,997 (pwynt 4)

Lleoliad: Gwersyll Caerdydd

Amdanom ni

Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru.

Ar drothwy ein canmlwyddiant, dyma ddatgan ein huchelgais heriol i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith ein gwaith. Mae hyn yn allweddol os ydym am i'r Gymraeg fod yn ganolog ym mywydau plant a phobl ifanc Cymru, a sicrhau fod pawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg ai pheidio, yn teimlo perchnogaeth ac ymdeimlad o berthyn tuag at yr iaith a'i thraddodiadau.

Y Swydd

Mae'r Urdd yn chwilio am unigolyn brwdfrydig i ymuno â Gwersyll Caerdydd fel Swyddog Ymgysylltu.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Ceren Roberts (Pennaeth Gwersyll Caerdydd) ar cerenroberts@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – 21.05.21
Dyddiad Cyfweld – 8/9.06.21

Mae'r Urdd yn cefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith a gweithgareddau. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, ac yn benodol y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymgeiswyr anabl a phobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.

DISGRIFIAD SWYDD			
Teitl y swydd:	Swyddog Ymgysylltu	**Lleoliad:**	Gwersyll Caerdydd
Adran:	Gwersyll Caerdydd	**Rheolaeth Llinell:**	Dim
Yn adrodd i :	Pennaeth Gwersyll Caerdydd	**Graddfa:**	Gradd 3 £21,436 (pwynt 1)- £23,997 (pwynt 4)

Byddwn yn cychwyn cyfnod o ailgydio yn waith gwersylloedd yr Urdd yn sgil COVID-19, rydym yn chwilio am Swyddog Ymgysylltu newydd i Wersyll yr Urdd Caerdydd. Rydym yn chwilio am berson deinamig, egnïol, ymroddgar a brwdfrydig i ymgymryd â'r swydd hon.

Mae Gwersyll Caerdydd yn rhan o Urdd Gobaith Cymru, sef prif fudiad ieuenctid Cymru. Mae gan yr Urdd, sy'n elusen gofrestredig, dros 55,000 o aelodau ym mhob cwr o Gymru ac mae miloedd ohonynt yn ymweld â Gwersyll Caerdydd yn flynyddol. Rydym hefyd yn croesawi grwpiau rhyngwladol, grwpiau o sefydliadau eraill, ac yn agor y drysau i'r cyhoedd ar rhai benwythnosau penodol.

Mae'r Gwersyll yn cynnig profiadau amhrisiadwy i blant a phobl ifanc, nid yn unig fel cyfle preswyl ond hefyd trwy rhoi cyfle i wersyllwyr brofi yr iaith Gymraeg fel iaith gyfathrebu naturiol, a chael cyfle i ymweld a Phrifddinas Caerdydd. Mae angen sicrhau fod y profiadau i ymwelwyr yn parhau yn gyffrous, a bod pob ymwelydd yn cael y cyfle i brofi hynny drwy'r Gymraeg.

Yn sgil COVID-19 mae'r Gwersyll wedi bod ar gau fel canolfan breswyl ers dros blwyddyn, cyn hynny roedd trosiant blynyddol y Gwersyll yn £1m, gyda oddeutu 13,000 o unigolion yn aros yn y Gwersyll dros y flwyddyn. Byddwn yn dechrau ar gyfnod cyffrous yn ailadeiladu y Gwersyll gan gynnig profiadau newydd gan sicrhau darpariaeth amrywiol, trawiadol a bywiog.

Prif rôl y Swyddog Ymgysylltu fydd bod yn brif gysywllt i'r gwersyllwyr, boed hynny cyn yn ystod neu ar ôl ei cyfnod yn y Gwersyll. Byddant yn gyfrifol am groesawi y Gwersyllwyr, a chynnig profiad ardderchog i bob grŵp. Byddant yn cynnal a darparu gweithgareddau a sesiynau amrywiol. Bydd cyfle i fod yn greadigol er mwyn cynnig gweithgareddau newydd. Bydd y Swyddog Ymgysylltu hefyd yn trefnu arhosiad y grŵp, gan trefnu amserlen o weithgareddau amrywiol iddynt o amgylch y ddinas. Byddant hefyd yn arwain cyrsiau gwyliau y Gwersyll, gan gynnwys cyrsiau haf, pasg a Gŵyl Hwyl.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Prif gysywllt Ysgolion cyn, yn ystod ac yn dilyn ymweliadau; gan sicrhau bod pob grŵp yn cael y profiad a'r gofal cwsmer gorau.

2. Arwain gweithgareddau amrywiol o fewn y Gwersyll. Creu adnoddau newydd a datblygu gemau a gweithgareddau pwrpasol.

3. Annerch a chroesawi grwpiau amrywiol i'r Gwersyll yn ogystal a sicrhau trosglwyddo'r rheolau i'r grwp.

4. Trefnu gweithgareddau grwpiau sy'n aros yn y Gwersyll gan gynnwys cyfathrebu rhwng y grwpiau a chyflenwyr lleol i sicrhau amserlen addas a sicrhau fod y wybodaeth yma yn cael ei drosglwyddo'n brydlon ar gyfer trefniadau eraill

5. Arwain cyrsiau megis Cyrsiau Haf, Gŵyl Hwyl ayyb boed hynny yn gyrsiau undydd neu gyrsiau preswyl.

6. Cyfrifoldeb dros system archebu y Gwersyll

7. Ymgymryd â dyletswyddau priodol eraill sy'n cyfrannu at rediad esmwyth y Gwersyll ac adrannau eraill y Mudiad.

Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad
<u>Hanfodol</u>

i. Y gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog yn ysgrifenedig ac ar lafar (Cymraeg a Saesneg)
ii. Unigolyn egnïol, brwdfrydig a threfnus
iii. Y gallu i siarad o flaen cynulleidfaoedd gwahanol
iv. Y gallu i flaenoriaethu a threfnu gwaith yn effeithiol
v. Parodrwydd i weithio yn unigol ac fel rhan o dîm
vi. Sgiliau cyfrifiadurol da
vii. Ymwybyddiaeth ac agwedd gyfrifol tuag at Iechyd a Diogelwch
viii. Agwedd groesawgar a hynaws
ix. Y gallu i feddwl ar ei traed ac delio gyda problemau sydd yn codi mewn ffordd priodol

<u>Dymunol</u>

x. Profiad o weithio mewn awyrgylch Gwersyll
xi. Profiad a'r gallu i weithio gyda phlant a phobl ifanc

Nodiadau i ymgeiswyr:

I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.

Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:
Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mawrth 2021 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

Teitl y swydd:	**Swyddog Ymgysylltu Gwersyll Caerdydd**
Yn atebol i:	Pennaeth y Gwersyll
Cyflog:	Ar raddfa 3 £21,436 (pwynt 1)- £23,997 (pwynt 4) Strwythur Cyflog yr Urdd Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.
Cytundeb:	Parhaol:
Oriau gwaith:	Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Prif oriau gwaith fydd Llun- Gwener 8:00am - 4:00pm. Ond oherwydd natur y Gwersyll, disgwylir i'r staff fod yn hyblyg o safbwynt yr oriau a'r dyddiau a weithir a'r dyletswyddau yr ymgymerir â hwy er mwyn cyflawni'r gwaith. Ceir amser yn ôl fel amser dyledus.
Lleoliad:	Gwersyll Caerdydd. Mae disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fyw/aros oddi fewn pellter teithio 30 munud i'r Gwersyll pan ar 'alwad'.
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis.
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Gwiriad GDG:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.
Yswiriant Bywyd:	Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70.